

Adroddiad y Dystysgrif Sgiliau Iaith 2016

Unwaith eto eleni carwn ddiolch i'r canlynol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn; Joanna Evans (Swyddog Datblygu Data a Gwybodaeth), Eiry Miles (Prif Diwtor Sgiliau Iaith) ynghyd â thiwtoriaid y Dystysgrif a staff Swyddfa Ganolog y Coleg Cymraeg.

1. Cwmpas

Dyma'r nifer a safodd yr arholiad yn y gwahanol ganolfannau. Ymrestrodd rhagor o ymgeiswyr ar ddechrau'r flwyddyn ond penderfynodd nifer nad oeddent am barhau i fynychu'r sesiynau a sefyll yr arholiad. Dosbarthwyd holiadur er mwyn ceisio darganfod y rhesymau am y gostyngiad hwn. Ni chafwyd atebion gan bawb, felly mae'n anodd crisialu'r union resymau ond mae'n debyg bod pwysau gwaith yn ffactor allweddol.

Roedd yr ymatebion i'r holiadur arall ar gyfer myfyrwyr a gwblhaodd y Dystysgrif yn gadarnhaol iawn at ei gilydd. Carwn gyfeirio yn benodol at ymateb yr ymgeiswyr i'r sesiynau hyfforddi. Nododd hanner yr ymgeiswyr bod y sesiynau yn ddefnyddiol iawn/ardderchog a thua 33/% eu bod wedi cael rhywfaint o fudd o fynychu'r sesiynau.

TABL

Prifysgol	Nifer ymgeiswyr
Y Drindod Dewi Sant	34
Abertawe	17
Aberystwyth	35
Bangor	58
Caerdydd	48
De Cymru	15
Met Caerdydd	24
Prifysgol Cymru	1
Cymraeg i Oedolion	7
Cyfanswm	239

Mae tri ymgeisydd o blith yr uchod wedi cwblhau'r asesiad llafar yn unig ac yn gwneud cais i fancio'r marc ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae un ymgeisydd arall yn gobeithio bancio'r marc ysgrifenedig. Roedd 2 ymgeisydd o blith y 239 yn absennol ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig heb nodi rheswm dilys. Roedd 35 ymgeisydd eleni (sef 15%) wedi astudio am raddau (cyfun/ anrhydedd sengl) yn y Gymraeg.

2. Datblygiadau

2.1 ARHOLIADAU

Lluniwyd dau bapur arholiad a chynhaliwyd yr arholiadau yn ystod bore a phrynhawn 27 Ebrill. Carwn gyfeirio at ddau fater penodol ynghylch yr arholiad eleni. Trwy amryfusedd cafodd 11 ymgeisydd ym Mhrifysgol Caerdydd bapur y prynhawn yn ystod sesiwn y bore. Ar ôl edrych ar dystiolaeth ystadegol y brifysgol honno yn fanwl, penderfynwyd nad oedd hyn wedi dylanwadu ar ganlyniadau'r myfyrwyr eraill a safodd yr arholiad yn y ganolfan.

Roedd gwall teipio yng nghwestiwn cyntaf papur y prynhawn yn golygu bod 23 gwall - yn hytrach na 22 – yn y darn gosod. Ni fu'n bosib hysbysu myfyrwyr Bangor mewn pryd i anwybyddu'r gwall ychwanegol, ac felly argymhellais fod angen ystyried hynny wrth farcio papurau ymgeiswyr y brifysgol honno.

1.2 MARCHNATA

Lluniodd Cris Dafis ac Eiry Miles fideo yn marchnata'r Dystysgrif gyda'r bwriad o ddenu rhagor o ymgeiswyr. Hefyd, lluniodd Cris fideo arall yn amlinellu sut i fynd ati i lunio cyflwyniad llafar graenus.

Mae'r cyflwyniadau hyn ar gael ar-lein yn llyfrgell adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2.3 HYFFORDDI

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar gyfer ymgeiswyr yn y gwahanol ganolfannau ac anogwyd myfyrwyr i'w mynychu. Yn ystod y sesiynau hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid bu cryn drafod ynghylch y prawf llafar a'r arholiad ysgrifenedig. Trafodwyd yn fanwl addasrwydd yr ail dasg (sef y trawsieithu) yn y papur ysgrifenedig. Yn ystod y sesiynau hyn cafodd tiwtoriaid gyfle i gydfarcio papurau na fu'n rhan o'r sampl a anfonwyd at y prif arholwr y llynedd. Roedd hwn yn ymarfer buddiol dros ben.

3 Bras Ganlyniadau

Wele restr o'r niferoedd a roddwyd yn y gwahanol categorïau eleni:

Dyfarniad	Nifer (a chanran)
Rhagoriaeth	68 (29%)
Clod	81 (34%)
Llwyddo	68 (29%)
Methu	18 (8%)

235 ymgeisydd a gwblhaodd y ddwy elfen.

3.1 Y DASG LAFAR

Gosodwyd yr un dasg ag arfer – cyflwyniad (7 munud) ar agwedd ddiddorol ar eu pwnc/maes academiaidd ar gyfer ei draddodi o flaen cynulleidfa leyg. Gofynnwyd cwestiynau i'r ymgeiswyr yn ystod ail hanner y prawf (8 munud). Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr lunio adnodd ysgrifenedig neu *Powerpoint* er mwyn hwyluso'r dasg o gyflwyno.

Gwelwyd sampl a 30 o dasgau a oedd yn cynnwys enghreifftiau o bob categori. Roedd marciau terfynol yr asesiad llafar yn amrywio o 49% i 96%. 69.4 oedd y cymedr a'r gwriad safonol yn 9.3.

At ei gilydd roedd y safon yn uwch eleni a chyflwynwyd pynciau amrywiol megis Hwliganiaeth Pêl Droed, Twristiaeth Lenyddol, Beth ydi Iechyd Meddwl? Mudiad y Ffermwyr Ifainc a Theatr Genedlaethol Cymru.

Rhai sylwadau cyffredinol:

Roedd hi'n bleser gwyllo/gwranddo ar nifer helaeth o gyflwyniadau eleni.

Doedd y goreuon ddim yn gaeth i'w nodiadau ac yn siarad o'r frest, gan gyfeirio'n achlysurol at eu sleidiau ar y sgrin neu bwyntiau bwled eu nodiadau.

Roedd cwestiynu'r tiwtoriaid yn bwrpasol a chafwyd nifer o drafodaethau da yn dilyn y cyflwyniadau.

3.2 Y DASG YSGRIFENEDIG

Yn wahanol i'r drefn arferol ni chafodd yr arholiad ei gynnal trwy'r Porth. Rhoddwyd y papurau arholiad ar ffyn cof, a chawsant eu llwytho ar y cyfrifiaduron gan Swyddogion Cangen y Coleg. Darparwyd copiâu papur i'r ymgeiswyr hefyd. Roedd tair tasg ar y papur:

- Golygu darn (a oedd yn cynnwys rhai gwallau y byddai Cysill yn eu codi) – 20%
- Trawsieithu (darn Saesneg i'w grynhoi yn Gymraeg) – 40%
- Ysgrifennu rhydd (darn yn rhoi gwybodaeth i ddarpar gyflogwyr ynghylch eu hastudiaethau/llunio darn ar gyfer stondin mewn ffair swyddi – 40%

Darparwyd cynllun marcio manwl ar gyfer y ddau bapur.

Gwelwyd sampl o tua 50 o bapurau, gan gynnwys gwaith ymgeiswyr o bob categori (Methu, Llwyddo, Clod, Rhagoriaeth)

Roedd marciau terfynol y papur terfynol y papur ysgrifenedig yn amrywio o 16% i 91%. 65.4% oedd y cymedr a'r gwyriad safonol yn 11.6.

TASG 1 - Golygu darn

Roedd y marciau'n amrywio o 10% i 97.5%. 59.5 oedd y cymedr a'r gwyriad safonol yn 21.4.

At ei gilydd ni chafodd yn dasg hon ei hateb yn dda. Ar wahân i rai ymgeiswyr a oedd yn amlwg yn gyfarwydd â darllen gweithiau ysgrifenedig yn Gymraeg, roedd nifer o ymgeiswyr yn ansicr ynghylch gramadeg ac orgraff yr iaith ac yn cywiro darnau diangen o'r darn gosod.

TASG 2 - Trawsieithu

Roedd y marciau'n amrywio o 10% i 90%. 63.5 oedd y cymedr a'r gwyriad safonol yn 12.

Collodd rhai ymgeiswyr farciau am gyfieithu'r darn cyfan neu ddarnau ohono.

Mae trawsieithu yn dasg anodd i ysgrifenyddwr profiadol ac mae'n holl bwysig bod ymgeiswyr yn mynychu sesiynau hyfforddi er mwyn gwneud cyfiawnder â'u gallu.

Unwaith eto eleni carwn argymhell bod ymgeiswyr yn darllen y darn yn ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau *cyn* dechrau ysgrifennu. Wedyn dylent lunio trawsysgrifiad ar sail eu nodiadau, yn hytrach na'r darn Saesneg gwreiddiol, er mwyn osgoi dylanwad cystrawennau Saesneg a chanolbwyntio ar y prif bwyntiau.

TASG 3 - Ysgrifennu Rhydd

Roedd y marciau yn y dasg hon yn amrywio o 15% i 95%. 67.3% oedd y cymedr a'r gwyriad safonol yn 11.8. Roedd yr ymgeiswyr yn llawer mwy hyderus wrth ymdrin â'r dasg hon gan eu bod yn ysgrifennu am eu priod bynciau ac yn gyfarwydd â'r derminoleg yn y pynciau hynny.

Serch hynny, doedd nifer ohonynt ddim wedi rhoi sylw i ddwy elfen sylfaenol wrth fynd ynghyd ag ateb y cwestiwn hwn. Mae'n bwysig yn y lle cyntaf eu bod yn cadw at y cywair priodol a'u bod hefyd yn ateb *pob* rhan o'r cwestiwn.

Felly, yn y papur cyntaf ar ôl nodi eu cymwysterau, dylent fod wedi nodi swydd/i addas yn ogystal â nodi eu haddasrwydd ar eu chyfer – tair elfen i gyd. Ceir tair elfen yng nghwestiwn papur y prynhawn hefyd, sef amlinellu'r cyrsiau a astudiwyd ganddynt; y modd y maen nhw wedi'u paratoi ar gyfer y byd gwaith ynghyd â sgiliau penodol eraill.

Eleni eto amlygwyd y gwendidau arferol o safbwynt gramadeg, treiglo a chystrawennu yng ngweithiau'r ymgeiswyr gwannaf.

Er nad yw darllen Cymraeg yn elfen a gynhwysir yn y papur arholiad, byddai nifer o'r ymgeiswyr ar eu hennill pe baent yn darllen adroddiadau/cyhoeddiadau/llyfrau Cymraeg wrth baratoi ar gyfer y Dystysgrif, a hynny er mwyn ymgyfarwyddo â'r elfennau a nodwyd.

4.0 Ystyriaethau eraill

4.1

Sicrhau bod argymhelliad y llynedd ynghylch mabwysiadu trefn sy'n nodi'n fanwl allu ieithyddol yr ymgeiswyr mewn grym bellach. Er enghraifft: Tystysgrif Sgiliau Iaith (llafar ac ysgrifenedig/llafar yn unig/ysgrifenedig yn unig)

4.2

Ystyried a ddylid cyfyngu'r Dystysgrif ar gyfer myfyrwyr a astudiodd fodiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae mantais amlwg gan fyfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y brifysgol.

4.3

Ailystyried addasrwydd y papur arholiad yn ei ffurf bresennol ar gyfer cynulleidfa a astudiodd fodiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg. A yw'r ddwy dasg gyntaf mor berthnasol erbyn hyn ag oedden nhw pan gyflwynwyd y Dystysgrif yn wreiddiol? Mae nifer cynyddol o weithleoedd bellach yn penodi cyfieithwyr/swyddogion iaith - a nhw sy'n gyfrifol am gywiro/olygu Cymraeg ysgrifenedig, er enghraifft. Mae'r galw am weithwyr sy'n medru gweithio trwy gyfrwng yr iaith ymhob maes yn parhau i fod cyn bwysiced ag erioed.